

CYFLWYNIAD

Trosolwg a chyflwyniad

Mae safonau'r Gymraeg yn creu fframwaith cyfreithiol sy'n rhoi hawl i unigolion gael gwasanaethau penodol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Mesur yn berthnasol i Ganolfan Mileniwm Cymru, ac ers 25 Ionawr 2017, rydym wedi bod yn cydymffurfio'n llwyddiannus â nifer o'r safonau. Roedd rhagor o safonau i'w gweithredu ddiwedd mis Gorffennaf 2017.

Ers inni agor ein drysau yn 2004, rydym wastad wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau dwyieithog. Roedd hynny'n golygu ein bod eisoes yn gwneud llawer o'r hyn a oedd yn ofynnol er mwyn cydymffurfio â'r safonau. Rydym yn falch o'n treftadaeth a'n diwylliant Cymreig – mae'r iaith yn rhan bwysig o hunaniaeth y Ganolfan ac yn rhan o'r hyn sy'n ein gwneud yn unigryw.

Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i gyflawni'r safonau ac rydym yn falch o gyhoeddi ein hadroddiad blynyddol cyntaf, ar gyfer 2016/17, sy'n dangos y cynnydd rydym wedi'i wneud hyd yma.

Gan na fu llawer o amser ers i'r safonau ddod i rym yn ystod y flwyddyn, mae adroddiad eleni yn canolbwyntio ar y gwaith rydym wedi'i wneud i gynllunio ar gyfer rhoi'r safonau ar waith.

Y safonau

Roedd yr Hysbysiad Cydymffurfio Terfynol a roddwyd inni ym mis Gorffennaf 2016 yn cynnwys cyfanswm o 146 o safonau, gydag 118 ohonynt yn dod i rym ar 25 Ionawr 2017 a'r 28 arall yn dod i rym ar 25 Gorffennaf 2017. Mae'r safonau o fewn y categorïau hyn:

Safon	Cydymffurfio o 25.01.2017	Cydymffurfio o 25.07.2017	Cyfanswm
Cyflenwi Gwasanaethau	66	-	66
Llunio Polisi	-	9	9
Gweithredu	26	17	43
Cadw Cofnodion	6	2	8

Atodol	20	-	20
--------	----	---	----

Cynllunio

Ar ôl inni gael yr Hysbysiad Cydymffurfio Drafft ym mis Mai 2016, cawsom gymorth Ateb, sef cwmni ymgynghori arbenigol, i ganfod y meysydd yr oedd angen inni ganolbwyntio arnynt a'u datblygu er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r safonau, ac i'n helpu i ganfod pryd yr oedd angen rhagor o amser arnom er mwyn cydymffurfio. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd yr holl adrannau a'r timau perthnasol yn rhan o'r gwaith.

Unwaith i'r Hysbysiad Terfynol gyrraedd, roeddem mewn sefyllfa gref i ddatblygu Cynllun Gweithredu manwl a oedd yn rhoi sylw i bopeth yr oedd angen inni ei wneud mewn da bryd ar gyfer mis Ionawr 2017.

Gan ein bod wastad wedi rhoi sylw o ddifrif i'n cyfrifoldeb i ddarparu gwasanaethau dwyieithog, roedd y rhan fwyaf o'r camau yr oedd angen eu cymryd yn datblygu ar hyn ac yn sicrhau ein bod yn gweithredu mewn ffordd gyson.

Camau gweithredu

Datblygwyd Ymrwymiad newydd gennym i'r Gymraeg, a hwnnw'n esbonio i'r cyhoedd mewn iaith syml sut yr ydym yn darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae modd gweld ein Hymrwymiad [fan hyn](#)

Aethom ati i ddatblygu nifer o nodiadau briffio a dogfennau er mwyn helpu staff i ddeall goblygiadau'r safonau. Mae hyn yn cynnwys 'Canllawiau i Staff' sy'n rhoi arweiniad llawn ynghylch y safonau. Aethom ati hefyd i ddatblygu cynllun cydymffurfio cynhwysfawr sydd wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan ac yn dangos sut y byddwn yn cydymffurfio â'r safonau. Gellir gweld hwn [fan hyn](#).

Fel rhan o'r gwaith paratoi, datblygwyd ymgyrch gyfathrebu fewnol, gyda'r nod o gyflwyno'r safonau i'r staff, sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau, a dangos pa gymorth a oedd ar gael iddynt.

Gan weithio gydag Ateb a chydweithwyr o Opera Cenedlaethol Cymru, cynhaliwyd nifer o sesiynau briffio ym mis Ionawr i staff ar bob lefel yn y Ganolfan. Roedd y pwyslais ar godi ymwybyddiaeth ac ar roi neges gref a chyson ynghylch yr hyn yr oedd angen i'r staff ei wneud er mwyn ymateb i'r safonau. Cynhaliwyd sesiynau dilynol ar bynciau pwysig gyda'n timau blaen tŷ, gan roi 'llawlyfr poced' syml iddynt er mwyn helpu.

Mae'r adrannau nesaf yn canolbwyntio ar gynllunio a chydymffurfio â safonau penodol:

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Cynllunio

Roedd camau gweithredu er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r safonau hyn yn cynnwys:

- Ysgrifennu atom
 - Wrth ysgrifennu at rywun am y tro cyntaf neu os nad ydym yn gwybod ym mha iaith y mae rhywun am inni ohebu â nhw, creu cynlluniau i sicrhau ein bod yn gwneud hynny'n ddwyieithog
 - Sicrhau ein bod yn datgan yn glir yn ein gohebiaeth, hysbysebion a chyhoeddiadau bod croeso i bobl gysylltu â ni drwy gyfrwng y Gymraeg
- Cysylltu dros y ffôn
 - Sicrhau y bydd pob aelod o staff sy'n cael galwadau ffôn yn uniongyrchol gan y cyhoedd yn eu cyfarch yn Gymraeg
 - Sicrhau bod yr opsiwn Cymraeg yn dal i fod ar gael ar ein prif rif ffôn
- Cyfarfodydd a digwyddiadau
 - Wrth drefnu a chynnal digwyddiadau a chyfarfodydd cyhoeddus, datblygu prosesau i sicrhau ein bod yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal
- Cyhoeddiadau a deunydd ysgrifenedig
 - Sicrhau bod yr holl ddogfennau, deunydd cyhoeddusrwydd a hysbysebion a luniwn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg a bod y ddwy iaith yn ymddangos yr un mor amlwg â'i gilydd
 - Hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg yn ein rhaglen dymhorol
- Deunydd digidol ac ar-lein
 - Rydym wedi datblygu adran benodol ar ein gwefan sy'n cynnwys yr holl wybodaeth am sut y mae'r Ganolfan yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg
- Yn y Ganolfan ei hun
 - Sicrhau bod staff sy'n gallu siarad Cymraeg yn gweithio ar y ddesg flaen ac yn y swyddfa docynnau fel ein bod yn rhoi gwasanaeth dwyieithog i aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â'r Ganolfan

Cydymffurfio

Rydym yn credu ein bod yn cydymffurfio'n llwyddiannus â'r safonau gofynnol yn y maes hwn.

Cwynion

Yn ystod y cyfnod adrodd, ni ddaeth unrhyw gwynion i law am y modd yr ydym yn cydymffurfio â'r safonau Cyflenwi Gwasanaethau.

Safonau Lluio Polisi

Ni chafodd y safonau sy'n ymwneud â'r maes hwn eu gosod tan fis Gorffennaf 2017. Rydym wedi bod yn gweithio ar becyn asesu er mwyn ein helpu i gydymffurfio, a bydd manylion ynghylch hyn yn ein hadroddiad nesaf.

Safonau Gweithredu

Drwy'r safonau, rydym yn ymrwymo i'r egwyddor y gall ein holl staff fyw eu bywydau gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg – o lenwi ffurflen gais a chael cyfweiliad i drafod materion sy'n ymwneud â'u swyddi.

Roedd y rhan fwyaf o'r safonau Gweithredu a ddaeth i rym ym mis Ionawr yn canolbwyntio ar recriwtio. Roedd hyn yn y cynnwys ystyried yr angen am sgiliau Cymraeg ar gyfer pob swydd newydd neu swydd wag, a sicrhau bod polisiau ynghylch amodau gweithio'r staff sy'n cael eu rhestru yn y safonau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Roedd y safonau a ddaeth i rym ym mis Gorffennaf 2017 yn canolbwyntio ar hyfforddiant, prosesau sy'n ymwneud ag adnoddau dynol fel cwynion a gweithdrefnau disgyblu, a datblygu polisi ar gyfer hybu a hwyluso'r Gymraeg yn fewnol.

Cydymffurfio

Rydym yn credu ein bod yn cydymffurfio'n llwyddiannus â'r safonau gofynnol yn y maes hwn.

Cwynion

Yn ystod y cyfnod adrodd, ni ddaeth unrhyw gwynion i law am y modd yr ydym yn cydymffurfio â'r safonau Gweithredu.

O ran y gofynion adrodd penodol y mae'n rhaid inni eu dilyn:

Sgiliau yn y Gymraeg

Rydym yn cofnodi nifer y gweithwyr sydd â sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, ac ar ddiwedd 2016/17 roedd y sefyllfa fel a ganlyn:

Cyfanswm nifer y staff = 356

Cyfanswm nifer y staff a oedd â sgiliau yn y Gymraeg = 259 (73%)

Hyfforddiant

Bydd gofyn inni adrodd ynghylch nifer a chanran y staff a aeth ar gyrsiau hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y flwyddyn, ond dim ond ym mis Gorffennaf 2017 y cyflwynwyd y safon hon ac felly nid yw'n cael sylw yn yr adroddiad hwn.

Recriwtio

Rydym wedi bod yn gweithio ar y modd yr ydym yn canfod ym mha swyddi y mae angen sgiliau yn y Gymraeg, ac rydym yn awyddus i wneud hyn mewn ffordd strategol. Yn unol â'r gofynion, rydym yn cofnodi'r wybodaeth ganlynol:

Swyddi newydd / swyddi gwag a hysbysebwyd yn ystod y cyfnod adrodd	21
Swyddi ble'r oedd sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol	5
Swyddi ble byddai angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg ar ôl penodi i'r swydd	1
Swyddi ble'r oedd sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol	15
Swyddi ble nad oedd angen sgiliau yn y Gymraeg	0

Y pwyslais yn y flwyddyn i ddod

Byddwn yn dal i ganolbwyntio ar sicrhau ein bod yn parhau i gydymffurfio â'r safonau a'n bod yn parhau i ymateb yn gadarnhaol i'n cwsmeriaid yn eu dewis iaith. Wrth lunio'r adroddiad hwn, rydym hefyd yn hyderus y byddwn yn cydymffurfio â'r safonau a ddaeth i rym ym mis Gorffennaf 2017. Dros y deuddeg mis nesaf byddwn yn gwneud y canlynol:

- Cynnig gwersi Cymraeg i staff drwy gynllun Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, gan ganolbwyntio i ddechrau ar staff rheng flaen

- Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a sesiynau cynefino wedi'u diwygio, a'r rheini'n cyfeirio at y safonau
- Rhoi sesiwn am y safonau i Reolwyr fel rhan o'u proses gynefino
- Datblygu'r modd yr ydym yn cynllunio'r gweithlu yn sgil y safonau
- Cynnig sesiynau briffio i atgoffa staff allweddol am y safonau

Rhagor o wybodaeth

Mae rhestr lawn o'r safonau sy'n berthnasol inni i'w gweld ar ein gwefan ac ar wefan Comisiynydd y Gymraeg www.comisiynyddygybraeg.cymru.

Gellir canfod rhagor o wybodaeth am y safonau ac am Fesur y Gymraeg ar wefan y Comisiynydd hefyd.

Cysylltwch â ni os hoffech gael rhagor o wybodaeth.

029 2063 6464

wmc.org.uk

adborth@wmc.org.uk

Neu ar ein tudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol ...

Facebook/Twitter/Instagram

This report is available in English / Mae'r adroddiad yma ar gael yn Saesneg